# CROESO I BWYLLGOR CYNLLUNIO CYNGOR SIR DDINBYCH

## SUT Y CYNHELIR Y CYFARFOD

Oni bai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn dweud yn wahanol, bydd trefn y prif eitemau a drafodir yn dilyn y rhaglen a nodir ar ddechrau'r adroddiad hwn.

## Cyflwyniad cyffredinol

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod am 9.30am ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cadeirydd yn holi a oes unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o gysylltiad.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Swyddogion i wneud cyflwyniad byr i'r materion sy'n berthnasol i'r cyfarfod.

Bydd Swyddogion yn amlinellu eitemau fel y bo'n briodol a fydd yn destun siarad cyhoeddus, yn geisiadau am ohirio, eu tynnu'n ôl, adroddiadau arbennig ac unrhyw eitemau Rhan 2 lle gellir gwahardd y wasg a'r cyhoedd. Cyfeirir at wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chylchredeg yn Siambr y Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod, yn cynnwys sylwadau hwyr/taflenni crynhoi diwygiadau ('Taflenni Glas') ac unrhyw gynlluniau ategol neu ddiwygiedig yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried.

Mae'r Taflenni Glas yn cynnwys gwybodaeth bwysig, yn cynnwys crynodeb o'r deunydd a dderbynnir mewn perthynas ag eitemau ar y rhaglen rhwng cwblhau'r prif adroddiadau a'r diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'r taflenni hefyd yn gosod trefn rhedeg arfaethedig ceisiadau cynllunio, i ystyried ceisiadau siarad cyhoeddus.

Mewn perthynas â threfn eitemau, bydd disgwyl i unrhyw Aelodau sy'n ceisio symud eitem yn ei blaen i'w hystyried, yn gorfod gwneud cais o'r fath yn syth wedi cyflwyniad y Swyddog. Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath fel cynnig ffurfiol a bydd yn destun pleidlais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n cynnwys 21 Aelod etholedig. Yn unol â phrotocol, rhaid i 11 Aelod fod yn bresennol ar ddechrau dadl dros eitem i wneud cworwm ac i ganiatáu cynnal y bleidlais.

Gall Aelodau'r Cyngor Sir nad ydynt wedi'u hethol ar y Pwyllgor Cynllunio ddod i'r cyfarfod a siarad am eitem, ond nid ydynt yn gallu gwneud cynnig i roi neu wrthod cais, neu bleidleisio.

## YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO

## Y drefn i'w dilyn

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r eitem a fydd yn cael sylw nesaf. Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, cyfeirir at rif y cais, y lleoliad a sail y cynnig, yr Aelodau lleol perthnasol ar gyfer yr ardal ac argymhelliad y Swyddog.

Os yw unrhyw Aelod o blaid cynnig gohirio eitem, yn cynnwys caniatáu bod y safle'n cael ymweliad gan y Panel Arolygu Safle, dylid gwneud y cais, gyda'r rheswm cynllunio dros ohirio, cyn unrhyw siarad cyhoeddus neu ddadl dros yr eitem honno.

Os oes siaradwyr cyhoeddus gydag eitem, bydd y Cadeirydd yn eu gwahodd i annerch y Pwyllgor. Lle mae siaradwyr o blaid ac yn erbyn cynnig, gofynnir i'r siaradwr siarad yn gyntaf. Bydd y Cadeirydd yn atgoffa siaradwyr eu bod ag uchafswm o 3 munud i annerch y Pwyllgor. Mae siarad cyhoeddus yn destun protocol ar wahân.

Lle bo'n berthnasol, bydd y Cadeirydd yn cynnig y cyfle i Aelodau ddarllen unrhyw wybodaeth hwyr am eitem ar y 'Taflenni Glas' cyn symud ymlaen.

Cyn unrhyw drafodaeth, gall y Cadeirydd wahodd Swyddogion i roi cyflwyniad byr am eitem lle ystyrir hyn yn werthfawr o ran natur y cais.

Mae sgriniau arddangos yn Siambr y Cyngor sy'n cael eu defnyddio i ddangos lluniau, neu gynlluniau a gyflwynwyd gyda'r ceisiadau. Mae'r lluniau'n cael eu tynnu gan Swyddogion i roi darlun cyffredinol o'r safle a'r hyn sydd o'i amgylch i Aelodau, ac nid eu bwriad yw cyflwyno achos o blaid neu yn erbyn cais.

Bydd y Cadeirydd yna'n cyhoeddi y bydd yr eitem yn agored i'w thrafod ac yn rhoi'r cyfle i Aelodau siarad a gwneud sylwadau ar yr eitem.

Os yw unrhyw gais wedi bod yn destun Panel Arolygiad Safle cyn y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd fel arfer yn gwahodd yr Aelodau hynny a oedd yn bresennol, yn cynnwys yr Aelod Lleol, i siarad gyntaf.

Gyda phob cais arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu'r Aelod(au) Lleol i siarad gyntaf, pe bai ef/hi/nhw yn dymuno.

Mae Aelodau fel arfer yn gyfyngedig i uchafswm o bum munud o amser siarad, a bydd y Cadeirydd yn cynnal y ddadl yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Unwaith y bydd Aelod wedi siarad, ni ddylai siarad eto oni bai y ceisir eglurhad am bwyntiau sy'n codi yn y ddadl, ac yna dim ond wedi i bob Aelod arall gael y cyfle i siarad, gyda chytundeb y Cadeirydd.

Ar gasgliad dadl yr Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb fel y bo'n briodol i gwestiynau a phwyntiau a godwyd, yn cynnwys cyngor ar unrhyw benderfyniad sy'n groes i argymhelliad.

Cyn mynd ymlaen i bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn gwahodd neu'n ceisio eglurhad am gynigion ac eilyddion o blaid neu yn erbyn argymhelliad y Swyddog, neu unrhyw benderfyniadau eraill yn cynnwys diwygiadau i gynigion. Lle mae cynnig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd y Cadeirydd yn ceisio eglurhad o'r rheswm/rhesymau cynllunio dros y cynnig hwnnw, er mwyn cofnodi hyn yng Nghofnodion y cyfarfod. Gall y Cadeirydd ofyn am sylwadau gan Swyddog y Gyfraith a Chynllunio ar ddilysrwydd y rheswm/rhesymau a nodwyd.

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pryd fydd y ddadl yn cau, ac y bydd pleidleisio'n dilyn.

# Y weithdrefn bleidleisio

Cyn gofyn i Aelodau bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pa benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, a sut y bydd y bleidlais yn digwydd. Os oes angen, efallai y bydd angen rhagor o eglurhad am ddiwygiadau, sylwadau newydd neu ychwanegol a rhesymau dros wrthod, fel nad oes amwysedd ynghylch beth mae'r Pwyllgor yn pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.

Os oes unrhyw Aelod yn gofyn am Bleidlais wedi'i Chofnodi, rhaid delio â hyn yn gyntaf yn unol â Rheolau Sefydlog. Bydd y Cadeirydd a'r Swyddogion yn egluro'r weithdrefn i'w dilyn. Bydd enw pob Aelod sy'n pleidleisio'n cael eu galw a bydd pob Aelod yn cyhoeddi a yw eu pleidlais o blaid, yn erbyn, neu a ydynt yn gwrthod pleidleisio. Bydd Swyddogion yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais ar yr eitem.

Os yw pleidlais am symud ymlaen yn y dull arferol drwy'r system bleidleisio electronig, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddogion baratoi'r sgrin(iau) pleidleisio yn y Siambr, ac yn ôl y gofyn, rhaid i Aelodau gofnodi eu pleidleisiau drwy bwyso'r botwm priodol (gweler y daflen ganlynol).

Mae gan Aelodau 10 eiliad i gofnodi eu pleidleisiau unwaith y bydd y sgrin bleidleisio wedi'i dangos, oni bai y nodir yn wahanol gan Aelodau.

Os bydd y system pleidleisio electronig yn methu, gellir pleidleisio drwy ddangos dwylo. Bydd y Cadeirydd a'r Swyddogion yn egluro'r weithdrefn i'w dilyn.

Ar ddiwedd y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar yr eitem.

Lle bydd penderfyniad ffurfiol y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y Swyddog, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Aelodau gytuno ar y broses y drafftir amodau cynllunio neu resymau dros wrthod, er mwyn rhyddhau'r Dystysgrif Penderfyniad (e.e. dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Cynllunio, i'r Swyddog Cynllunio mewn ymgysylltiad ag Aelodau Lleol, neu drwy gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Cynllunio am gadarnhad).